CYPE(5)-08-21- Papur 1

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

# Effaith Covid-19 ar Sector AU Cymru

# Adroddiad CCAUC i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Mawrth 2021

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Effaith ariannol

1. Fel yr adroddwyd gerbron y Pwyllgor ym mis Mehefin 2020, roedd disgwyl i Brifysgolion brofi colled incwm sylweddol a newidiadau i'w modelau gweithredu o ganlyniad i Covid-19. O ddadansoddi gwybodaeth a ddarparwyd gan brifysgolion i CCAUC yn fuan ym mis Ebrill 2020, nodwyd y gallai pandemig Covid-19 greu gostyngiad o oddeutu £80-£90m mewn incwm erbyn mis Gorffennaf 2020. Dengys ein dadansoddiad o ganlyniadau ariannol prifysgolion yn 2019/20 fod y pandemig wedi cael cryn effaith ar incwm, gyda'r gostyngiad hwn mewn incwm yn deillio o'r canlynol: colli ffioedd llety; gostwng gwasanaethau masnachol; colli cyllid ymchwil ac incwm arall. Yn ogystal a hynny, mae'r sector wedi ysgwyddo'r gost ychwanegol o weithredu mewn modd sy'n ddiogel o safbwynt Covid, gan gynnwys addasu'r ystâd, seilwaith TG i gynnal dysgu cyfunol (gan gynnwys seibrddiogelwch), prynu PPE a chostau profi, ymhlith costau eraill. Mae'r sector hefyd wedi ysgwyddo costau cymorth myfyrwyr uwch, cost darparu offer TG i fyfyrwyr sy'n profi caledi a chost rhoi cymorth i'r GIG, yn enwedig yng nghyfnodau cynnar y pandemig. Derbyniodd prifysgolion a ddarparodd y cymorth hwn rywfaint o ad-daliad am gostau'r ddarpariaeth yn 2020/21, ond ni thalodd hynny am yr holl gostau yn llawn.

2. Fodd bynnag, cymerodd holl brifysgolion Cymru gamau o fis Mawrth 2020 i gynilo arian lle'r oedd modd, a lliniaru'r gostyngiad mewn incwm, a'r costau gweithredu ychwanegol yn gysylltiedig â Covid. Camau i reoli costau a gohirio gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf, oedd y rhain yn bennaf. Roedd y mesurau rheoli costau yn cynnwys rhewi swyddi gwag, defnyddio Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws Llywodraeth y DU i roi staff 'ar ffyrlo', lle bo'n berthnasol, a thynhau mesurau rheoli gwariant yn gyffredinol. Yn ogystal â rheoli costau, mae'r pandemig hefyd wedi achosi gostyngiad mewn gwariant mewn rhai meysydd, fel costau teithio rhyngwladol, a chostau ynni a chyfleustodau. Ar y cyfan, mae gwarged/diffyg y sector ar gyfer 2019/20 wedi gwella'n sylweddol o'r rhagolygon a gafwyd ar ddechrau'r pandemig, a disgwylir bellach y bydd yn agos at fantoli'r gyllideb[1].

3. Roedd sefyllfa ariannol y sector yn 2019/20 yn well na'r rhagolygon gwreiddiol, am y rhesymau a nodwyd uchod. Serch hynny, o gyfnod cynnar iawn yn y pandemig ystyriwyd y byddai 2020/21 yn debygol o greu heriau mwy i'r sector, yn enwedig o ran recriwtio myfyrwyr ac effaith ganlyniadol hynny ar incwm ffioedd dysgu - yr oedd disgwyl i'r effaith hon barhau yn 2021/22 a thu hwnt. Yn ogystal â hyn, mae'r cyfyngiadau sy'n deillio o'r pandemig wedi parhau'n hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol, gydag effeithiau parhaus ar y gallu i gynhyrchu incwm a chostau'n gysylltiedig â Covid. Po hiraf y bydd y cyfyngiadau hyn ar waith, y mwyaf fydd yr effaith ariannol yn y dyfodol.

4. Bu proses recriwtio myfyrwyr i'r sector yn 2020/21 yn well na'r disgwyl ar ddechrau'r pandemig, er na fu hynny'n wir yn achos pob prifysgol. Roedd y broses o recriwtio myfyrwyr y DU yn well na'r disgwyl ar y cyfan, yn enwedig

[1]Nid yw'r diffyg bach ar gyfer 2019/20 yn cynnwys addasiad cadarnhaol nad yw'n arian parod, o oddeutu £117 miliwn, yn gysylltiedig â chynllun pensiwn CPP.

yn achos prifysgolion Grŵp Russell, gyda'r newidiadau i drefniadau canlyniadau Safon Uwch yn ffactor yn hyn o beth. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiadau yn nifer y myfyrwyr a recriwtiwyd o dramor, oherwydd y cyfyngiadau parhaus ar deithio, canfyddiadau ynghylch ymdriniaeth y DU â Covid, ac amharodrwydd gan rai i ddechrau eu hastudiaethau drwy ddysgu ar-lein. Fodd bynnag, bu'r gostyngiadau hyn hefyd yn llai dramatig na'r ofnau a gafwyd yn wreiddiol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae prifysgolion yn profi gostyngiad mewn incwm ffioedd dysgu, yn enwedig gan fyfyrwyr rhyngwladol, yn ogystal â gostyngiad parhaus mewn incwm o ffioedd llety, gwasanaethau masnachol, cyrsiau byr a chyrsiau haf, cyllid ymchwil a ffynonellau eraill. Mae prifysgolion hefyd wedi gorfod ysgwyddo'r gost o ad-dalu costau llety i'r myfyrwyr hynny nad ydynt wedi gallu dychwelyd i'r campws oherwydd cyfyngiadau teithio Covid.

5. Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau gradd yn dair blynedd o hyd, felly bydd effaith y gostyngiad yn y niferoedd recriwtio yn 2020/21 yn parhau i 2021/22 a thu hwnt, wrth i'r lefelau is o fyfyrwyr weithio'u ffordd drwy'r system. Canlyniad hyn yw bod prifysgolion wedi gorfod parhau â mesurau rheoli costau, a bod angen i rai ddwysau cynlluniau ad-drefnu a oedd eisoes ar waith cyn y pandemig, gyda'r potensial am effaith economaidd ehangach yn sgil colli'r swyddi hyn. Mae prifysgolion hefyd wedi gorfod parhau i ohirio gwariant cyfalaf, gan greu ôl-groniad o gostau cynnal a chadw ac effeithio ar yr angen am wariant cyfalaf yn y blynyddoedd nesaf. Gallai'r gostyngiad mewn incwm o ffioedd rhyngwladol hefyd effeithio ar gapasiti ymchwil prifysgolion. Mae costau ymchwil prifysgolion yn sylweddol uwch na'r grantiau a'r incwm ymchwil sydd ar gael i ariannu swm yr ymchwil a gyflawnir, ac mae'r ffioedd uwch a godir gan fyfyrwyr rhyngwladol yn cyfrannu at ariannu gweithgarwch ymchwil y prifysgolion. Mae'r gostyngiad mewn incwm yn ychwanegol at y risg o golli mwy o grantiau ar gyfer prosiectau ymchwil, yn enwedig o'r sector elusennau ac o ddiwydiant. Gallai hyn effeithio ar gapasiti ymchwil prifysgolion yn y dyfodol, ac ar y budd economaidd i Gymru.

6. Ar sail gwybodaeth ddiweddar a ddarparwyd i CCAUC, rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gan y sector gyfanswm o £50 miliwn o ddiffyg yn 2020/21, er y dylid nodi bod rhai prifysgolion eisoes yn cynllunio am ddiffygion wedi'u rheoli cyn y pandemig. Fodd bynnag, byddai sefyllfa gyffredinol y sector yn nhermau hylifedd ac arian parod gweithredol yn parhau'n sefydlog, er bod rhai prifysgolion wedi trefnu benthyciadau byrdymor ychwanegol er mwyn sicrhau bod ganddynt arian parod dros ben. Rhagwelir y bydd hynny'n gadael y sector yn ysgwyddo dyled allanol sy'n llawer uwch na 50% o incwm yn 2020/21, sy'n sylweddol uwch na lefelau cyfartalog y DU[2]. Mae hyn yn debygol o gyfyngu ar allu'r sector i fenthyca mwy er mwyn buddsoddi, gan greu oedi pellach cyn i'r sector allu mewnfuddsoddi i ddenu myfyrwyr. Byddai'r cyllid cyfalaf sydd wedi'i gynllunio gan y Llywodraeth i Brifysgolion ar gyfer y tymor hir yn eu galluogi i gynyddu eu capasiti i gyflawni blaenoriaethau LlC, a thros amser, i leihau ymrwymiadau benthyca i lefelau mwy cynaliadwy.

---

[2] 37.9% o incwm yw'r ffigur diweddaraf sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyfartalog sector Sefydliadau Addysg Uwch y DU (2018/19).

## Cymorth Covid y Llywodraeth

7. Yng nghyd-destun yr heriau ariannol a achoswyd gan y pandemig, mae Prifysgolion wedi elwa ar gymorth sylweddol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys £27 miliwn drwy'r Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch[3]. Mae'r Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch yn cynorthwyo prifysgolion i gynnal capasiti addysgu ac ymchwil hanfodol yng nghyd-destun yr heriau ariannol cyfredol a achoswyd gan y pandemig. Drwy hynny, caiff y capasiti o ran pynciau ei ddiogelu sy'n hollbwysig i fodloni anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Rhagwelir y bydd y galw am addysg uwch ymhlith myfyrwyr y DU yn tyfu o 2021, wrth i nifer y bobl ifanc 18 oed gynyddu, a gallai'r nifer fod hyd yn oed yn uwch o ganlyniad i unrhyw ddirwasgiad yn dilyn Covid. Drwy helpu i gynnal capasiti addysgu o ansawdd a datblygu dulliau cyflwyno arloesol, bydd y cyllid yn cyfrannu at sicrhau bod prifysgolion Cymru'n dal i allu cystadlu â phrifysgolion yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol.

8. Mae'r Gronfa hefyd yn cefnogi rhaglenni cydweithredol graddfa fawr, a fydd yn tanategu rôl y sector wrth adfer yr economi. Ymhlith eraill, mae'r rhaglenni cydweithredol hyn yn cynnwys rhaglen i gynnal dysgu cyfunol ym mhrifysgolion Cymru, gan gynnwys dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a rhaglen wedi'i dylunio i gynnal capasiti'r sylfaen ymchwil drwy roi cymorth uniongyrchol i ymchwilwyr yn gynnar yn eu gyrfa. Mae'r cyllid hwn felly wedi rhoi prifysgolion Cymru mewn sefyllfa well i wynebu'r dyfodol ar ôl y pandemig, ac i gyfrannu'n effeithiol at adferiad yng Nghymru.

9. Mae'r sector hefyd wedi elwa ar gymorth sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cymorth gan brifysgolion i fyfyrwyr, gan gynnwys: £10 miliwn i ganolbwyntio ar yr heriau neilltuol o flaen myfyrwyr yn ystod y pandemig cyfredol[4], £2.7 miliwn i gefnogi iechyd meddwl a llesiant[5], £1.5 miliwn ar gyfer Cronfa Cymorth i Raddedigion 2020[6] a £40 miliwn i liniaru caledi myfyrwyr a phroblemau'n gysylltiedig â llesiant[7].

10. Yn ogystal â'i effaith fwy cyffredinol, bydd y gostyngiad mewn incwm ffioedd gan fyfyrwyr rhyngwladol a nodwyd uchod ar gyfer 2020/21 yn effeithio ar allu'r sector i gynnal ei gapasiti ymchwil. O ganlyniad i hyn, roedd sawl prifysgol yng Nghymru'n gymwys i dderbyn cymorth, ar ffurf benthyciadau gan fwyaf, drwy Gynllun Cynnal Arbenigedd Ymchwil Prifysgolion (SURE) gan Lywodraeth y DU.

11. I raddau rhesymol, mae prifysgolion wedi manteisio i'r eithaf ar Gynllun Cadw Swyddi Coronafeirws Llywodraeth y DU, a hefyd wedi archwilio cynlluniau cymorth eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cynllun Benthyciadau Mawr Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (CLBILS). Er bod un brifysgol wedi gallu manteisio ar gyllid CLBILS, canfu'r rhan fwyaf ohonynt naill ai fod

[3] Cronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch
[4] Cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer addysg uwch
[5] Cyllid y cynllun gweithredu iechyd a llesiant
[6] Cronfa Cymorth i Raddedigion 2020
[7] Cymorth ariannol pellach i fyfyrwyr addysg uwch yn gysylltiedig â Covid-19

cyfamod cyfyngol yn eu hatal rhag defnyddio'r Cynllun, neu fod cyfnod ad-dalu'r benthyciad yn rhy fyr.

**Heriau'r dyfodol a phwysigrwydd cyllid**

12. Bydd cystadleuaeth wrth recriwtio a disgwyliadau myfyrwyr yn parhau i roi pwysau ar brifysgolion i wella eu seilwaith a datblygu dulliau newydd o weithio. Bydd hyn yn ei dro yn creu pwysau ar arian parod a chronfeydd wrth gefn, a bydd hi'n hollbwysig dychwelyd i ryw fath o normalrwydd gweithredol er mwyn i brifysgolion allu ail-fuddsoddi yn eu seilwaith. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos prifysgolion Cymru, nad oes ganddynt lawer o gapasiti i dderbyn mwy o fenthyciadau. Mae'n allweddol felly fod arian dros ben i sicrhau cynaliadwyedd a buddsoddi mewn seilwaith.

13. Mae cyllid CCAUC yn ffactor sylfaenol pwysig i gynnal cynaliadwyedd a chystadleurwydd y sector yng Nghymru, a'i allu i gyfrannu at anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Yn yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru[8] (Adolygiad Diamond), argymhellwyd mesurau i gynyddu cyllid i'r sector, a dechreuodd y cyllid hwnnw lifo i'r sector o 2019/20. Roedd Covid-19 wedi cael effaith andwyol ar y cyllid hwn, gyda chyllid CCAUC ar gyfer 2020/21 i ddechrau wedi'i ostwng yn ôl i lefelau 2019/20 yn sgil y gostyngiadau cyllidebol yr oedd eu hangen yn y sector cyhoeddus ehangach, er mwyn darparu cronfa brwydro Covid-19 i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, llwyddwyd i liniaru hyn i raddau sylweddol drwy'r cymorth ariannol ychwanegol a gafwyd yn gysylltiedig â Covid, ac a amlinellwyd uchod. Rydym yn croesawu'r cynnydd i'r cyllid sylfaenol a nodwyd yng nghyllideb ddrafft 2021-22 yn fawr, a bydd o gymorth i greu sylfaen gadarn er mwyn i'r sector allu cynllunio am ddyfodol cynaliadwy. Fel isafswm, rydym yn gofyn am gael cadw'r cynnydd hwn, mewn termau real, fel cyllid cylchol i'w fuddsoddi mewn addysg uwch yng Nghymru. Bydd angen y cyllid ychwanegol hwn er mwyn gweithredu agweddau ar argymhellion Adolygiad Diamond, gan gynnwys yr argymhellion ynghylch cyllid heb ei neilltuo, i ysgogi newid mewn meysydd a gysylltir â Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac ysgoloriaethau ymchwil ôl-radd.

14. Bydd agweddau ar yr argymhellion yn yr Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru[9] (Adolygiad Reid) hefyd yn ddibynnol ar y cyllid ychwanegol hwn, gan gynnwys y lefel a argymhellir o gyllid yn gysylltiedig ag ansawdd, ac ailsefydlu cymorth arloesi ac ymgysylltu yn llawn (Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru).

15. Nid oes disgwyl unrhyw gynnydd yn y dyfodol i'r uchafswm ffioedd dysgu, ac mae ansicrwydd o hyd ynghylch ymateb llywodraeth y DU i'r Adolygiad o Addysg a Chyllid Ôl-16 yn Lloegr, o dan arweiniad Philip Augar. Roedd adroddiad yr Adolygiad hwnnw'n cynnig y dylid gostwng ffioedd yn Lloegr, ac fe gafwyd cyhoeddiadau mwy diweddar ynghylch newidiadau posibl i gymorth myfyrwyr yn Lloegr a fyddai'n debygol o effeithio ar Gymru. Yn y cyd-destun

[8] Adolygiad Diamond (llyw.cymru)
[9] Adolygiad Reid (llyw.cymru)

hwnnw lle nad yw'n debygol y caniateir cynyddu uchafswm ffioedd dysgu yn fuan, bydd prifysgolion yn wynebu cryn bwysau parhaus yn sgil cynnydd mewn costau penodol, ac yn enwedig costau cynyddu cyflogau a chyfraniadau pensiwn. O ran costau pensiwn, dangosai prisiad 2020 o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (CPP)[10] gynnydd yn niffyg y cynllun. Er mwyn rheoli'r diffyg hwn, rhagwelir y bydd yn rhaid codi cyfradd cyfrannu'r CPP o gyfanswm cyfredol o 30.7% o gyflog pensiynadwy (gan gynnwys cyfraniad gan y brifysgol sy'n cyflogi o 21.1%) i gyfanswm rhwng 42% a 56%, gyda'r lefel yn dibynnu'n rhannol ar y gwarantau ariannol a roddir gan y sector. Bydd hyn yn golygu bod angen cynyddu cyfraniadau'n sylweddol, gan effeithio ar sylfaen gostau'r holl brifysgolion sy'n aelodau o'r cynllun, a chreu goblygiadau posibl o ran y berthynas â'r gweithwyr.

16. Mae'r prifysgolion yn cydnabod ei bod hi'n annhebygol y bydd modd dychwelyd i'r hen 'normal', a bod yn rhaid iddynt baratoi i addasu eu sylfaen gostau heb dybio y bydd lefelau recriwtio rhyngwladol yn dychwelyd yn llawn i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Bydd rhaglen Cymru Fyd-eang III yn bwysig er mwyn helpu i ailadeiladu'r ymgyrch recriwtio rhyngwladol yn dilyn y pandemig a Brexit, ac mae cefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru i'r rhaglen hon yn galonogol. Mae prifysgolion hefyd yn cydnabod yr angen i weithio mewn ffyrdd newydd, gan gynnwys cydweithio o dan nawdd Grŵp Edrych Ymlaen y sector, wedi'i gynnull gan CCAUC, i ddatblygu rhwydwaith o bartneriaethau, sy'n canolbwyntio ar gyflawni a chanlyniadau yn hytrach na strwythurau, a fydd yn adeiladu ar gryfderau amrywiol ein prifysgolion ac a fydd yn sicrhau bod nifer fwy o bobl a lleoedd yn gallu elwa ar eu gwaith. Mae'r Grŵp Edrych Ymlaen yn cyflawni yn erbyn map ffordd i gefnogi adferiad ac adnewyddiad Cymru yn dilyn pandemig COVID-19, a chyflawni blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru. Bydd gwaith yn gysylltiedig ag agweddau tymor canolig a thymor hwy y map ffordd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf, ac yn effeithio ar ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol.

[10] Prisiad 2020 (uss.co.uk)